

Adroddiad Ymchwil

Adroddiad Ymwelwyr Cymru
2019

Cyngor Gwynedd



Paratowyd ar gyfer:
Cyngor Gwynedd

Paratowyd gan:
Beaufort Research



Manylion Cyswllt

Cyswllt yr asiantaeth: Fiona McAllister/Catrin Davies

Dyddiad: Chwefror 2020

Beaufort Research

2 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

(029) 2037 8565

enquiries@beaufortresearch.co.uk

www.beaufortresearch.co.uk

Telerau'r Contract

Oni chytunir yn wahanol, mae'r hawlfraint ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon yn dal i fod yn eiddo i Beaufort Research Ltd ac ni ellir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hatgynhyrchu heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y cwmni.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamliwio y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei gwrthod.

Rhaid i unrhyw gyhoeddiad a gymeradwywyd nodi: Beaufort Research Ltd fel y darparwr, maint y sampl a dyddiadau maes.

© Beaufort Research Ltd 2020

Cynhyrchwyd yn unol ag ISO20252



Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol.....	1
2. Methodoleg.....	6
3. Canfyddiadau'r ymchwil.....	7
4.1 Proffil ymwelwyr.....	7
4.2 Proffil teithiau.....	10
4.3 Cymhellion i ymweld a'r gweithgareddau a gyflawnwyd	11
4.4 Bodlonrwydd ar y profiad ar y cyfan, ailymweld ac argymell	14

Atodiad I: Rhestr fanwl o leoliadau'r arolwg

Atodiad II: Holiadur arolwg Cam 1 (cyfweliadau wyneb-yn-wyneb)

Atodiad III: Holiadur arolwg Cam 2 (cyfweliadau dros y ffôn)

1. Crynodeb gweithredol

1.1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar **ymwelwyr yn ardal awdurdod unedol Gwynedd**. Cynhaliwyd **667** o gyfweiliadau yng Ngham 1 a chynhaliwyd **345** arall yng Ngham 2 gydag ymwelwyr ag ardal sir Gwynedd.

Roedd hyn yn rhan o Arolwg Ymwelwyr Croeso Cymru 2019, a oedd yn cynnwys cyfweiliadau mewn dau gam ledled Cymru: Arolwg wyneb yn wyneb oedd **Cam 1**, ac yna cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn (ar ôl ymweliadau) yng **Ngham 2**. Cynhaliwyd **7,683** o gyfweiliadau wyneb yn wyneb ledled Cymru yng Ngham 1, a chynhaliwyd **3,909** o gyfweiliadau dros y ffôn yng Ngham 2. Drwy'r adroddiad, dygwyd cymariaethau rhwng sampl Gwynedd a sampl Cymru gyfan.

Cafodd y data ei bwysoli ar adeg ei ddadansoddi i adlewyrchu'r gyfran o ymwelwyr undydd o'r DU, ymwelwyr a oedd yn aros dros nos o'r DU ac ymwelwyr tramor yn y rhanbarth. Fe wnaed gwaith maes rhwng 4 Mai a 22 Tachwedd 2019.

1.2 Canfyddiadau allweddol

Proffil ymwelwyr:

Mae ychydig yn llai na hanner yr ymwelwyr â Gwynedd o Gymru (46%) gydag union hanner (50%) yn ymweld o rannau eraill o'r DU a 4% arall yn dod o dramor. Mae hyn braidd yn wahanol i'r darlun ledled Cymru ar gyfartaledd, lle mae'r mwyafrif, sef 69%, yn ymwelwyr o Gymru a dim ond 31% yn ymweld o'r tu allan i Gymru (27% o'r DU, 4% o dramor).

Mae'r rhaniad rhwng y rhywiau ymhlith ymwelwyr â Gwynedd yn gogwyddo tuag at fenywod ar 58% gyda 42% o ymwelwyr felly'n ddyinion. Mae hyn yn debyg iawn i ymwelwyr ledled Cymru gyfan, gan bod 61% o'r rhain yn fenywod a 39% yn ddyinion.

Ar y cyfan, mae proffil oedran ymwelwyr â Gwynedd yn cyfateb yn fras i broffil oedran ymwelwyr â Chymru gyfan gyda 21% o dan 35 oed (o'i gymharu â 24% ledled Cymru ar gyfartaledd), 46% yn 35-54 oed (o'i gymharu â 39% ledled Cymru gyfan) a'r traean (33%) sy'n weddill dros 55 oed (o'i gymharu â 37% ledled Cymru gyfan) – gweler Tabl 2 am y manylion llawn.

Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1* (75%) tra bo chwarter yn unig (25%) yn C2DE* sy'n debyg i gyfartaledd yr ymwelwyr ledled Cymru gyfan o 70% yng ngrwpiau ABC1, 30% yng ngrwpiau C2DE, er bod

ymwelwyr â Gwynedd ychydig yn nes at ben uchaf y farchnad na'r cyfartaledd, gyda 43% yn perthyn i gategori AB o'i gymharu â 35% ledled Cymru ar gyfartaledd.

**ABC1: galwedigaethau proffesiynol a galwedigaethau eraill nad ydynt yn rhai â llaw,*

***C2DE: galwedigaethau â llaw, gweithwyr lled grefftus a di-grefft, pobl nad ydynt yn gweithio a phobl wedi ymddeol sy'n cael pensiwn y wladwriaeth yn unig.*

Mae proffil tarddiad ethnig ymwelwyr â Gwynedd yn debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer ymwelwyr â Chymru gyfan gyda'r mwyafrif llethol o ymwelwyr yn dweud eu bod yn wyn Prydeinig/Cymreig (89% Gwynedd, 90% Cymru gyfan). Dim ond 6% o ymwelwyr â Gwynedd oedd yn "wyn – arall" (o'i gymharu â 7% o'r ymwelwyr ledled Cymru gyfan) ac roedd 5% yn dweud eu bod "heb fod yn wyn" (o'i gymharu â 3% o'r ymwelwyr ledled Cymru gyfan).

O ran cyfansoddiad grwpiau, fel cyfartaledd ymwelwyr Cymru gyfan, mae'r rhan fwyaf o grwpiau o ymwelwyr â Gwynedd naill ai'n gyplau (29%) neu'n grwpiau teuluol â phlant bach (24%). Roedd cyfran ychydig yn uwch o grwpiau teuluol â phlant hŷn yn ymweld â Gwynedd na'r cyfartaledd ledled Cymru (roedd gan 19% o'r ymwelwyr â Gwynedd blant hŷn neu gyfuniad o blant hŷn ac iau, o'i gymharu â 12% ledled Cymru gyfan). Roedd llai o ymwelwyr â Gwynedd yn ymweld ar eu pennau eu hunain na'r cyfartaledd (6% yn ymweld â Gwynedd o'i gymharu ag 11% ledled Cymru gyfan).

Nifer cyfartalog y bobl ym mhob parti sy'n ymweld yw 4.3 (3.4 o oedolion a 0.9 o blant), sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 3.7 (2.8 o oedolion a 0.9 o blant) ac mae'n cyfateb i'r proffil grwpiau a grybwyllwyd uchod, o lai o ymwelwyr unigol â Gwynedd na'r cyfartaledd.

Proffil teithiau:

Er bod y mwyafrif o ymwelwyr â Gwynedd ar daith undydd (72%) mae hon yn gyfran is o lawer na ledled Cymru ar gyfartaledd, lle'r oedd 89% ar deithiau dydd. Felly mae ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn rhoi cyfrif am gyfran uwch o lawer o ymwelwyr â Gwynedd na'r cyfartaledd: 27% o'i gymharu ag 11%.

O'r ymwelwyr â Gwynedd a oedd yn aros dros nos (27% o gyfanswm y sampl), roedd y rhan fwyaf ar egwyl fer (13%), gydag 8% ar eu prif wyliau blynyddol a 6% ar ail wyliau/gwyliau ychwanegol.

Mae Gwynedd yn denu cyfran uchel o ymwelwyr dychwel sy'n aros dros nos gyda bron i ddwy ran o dair wedi ymweld â'r ardal fwy nag unwaith yn y tair blynedd ddiwethaf (63%); roedd dros un ym mhob deg (13%) wedi ymweld fwy na deg o weithiau yn y cyfnod hwn. Ledled Cymru ar gyfartaledd, roedd 70% o'r ymwelwyr a

oedd yn aros dros nos yn ymwelwyr dychwel ac roedd 16% wedi ymweld dros 10 gwaith yn y tair blynedd ddiwethaf.

Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr undydd â Gwynedd wedi bod fwy nag unwaith yn y flwyddyn ddiwethaf (86%) gan gynnwys dros pedwar ym mhob deg (41%) a oedd wedi bod fwy nag 20 gwaith yn y ffrâm amser hon. Mae hyn yn debyg iawn i'r sefyllfa ledled Cymru ar gyfartaledd: roedd 91% o'r ymwelwyr undydd wedi bod o'r blaen gan gynnwys 42% a oedd wedi ymweld ag ardal fwy nag 20 gwaith.

Cymhellion dros ymweld a gweithgareddau a gyflawnwyd:

Roedd ymwelwyr â Gwynedd yn fwyaf tebygol o fod wedi dod i'r ardal i fwynhau'r dirwedd, cefn gwlad a thraethau (63%), ychydig yn fwy nag ymwelwyr â Chymru gyfan (55%). Yr ail brif reswm dros ymweld â Gwynedd oedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon, ac fe grybwyllwyd hyn gan bron i ddwywaith yn fwy o'r ymwelwyr â Gwynedd o'i gymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru (58% o'i gymharu â 31%). Y trydydd rheswm a nodwyd fynychaf dros ymweld â Gwynedd oedd i ymweld â lleoedd hanesyddol/crefyddol ac atyniadau, ac roedd y ganran hon, sef 39%, yn debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan (36%).

Mae bwrw golwg ar y gweithgareddau penodol a gyflawnwyd gan ymwelwyr â Gwynedd yn dangos mai'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd oedd cerdded am fwy na dwy filltir, yr oedd 37% o'r ymwelwyr â Gwynedd wedi cymryd rhan ynddo, sydd bron ddwywaith yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, sef 19%. Yn ail, trydydd a phedwerydd agos wedyn roedd ymweld â pharciau gwledig/coedwig (33%), mynd i weld golygfeydd yn gyffredinol (29%) ac ymweld â'r traeth (28%), yr oeddent i gyd yn weddol debyg/ychydig bach yn fwy poblogaidd yng Ngwynedd na ledled Cymru ar gyfartaledd. Roedd ymweld â rheilffordd stêm/olygfaol yn llawer mwy tebygol o fod wedi cael ei wneud yng Ngwynedd (15%) na ledled Cymru ar gyfartaledd (4%).

Roedd gwahaniaethau nodedig eraill yng Ngwynedd o'i gymharu â Chymru yn tueddu i fod yn gysylltiedig â chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon egnïol neu anturus: roedd 16% wedi cymryd rhan mewn beicio mynydd (o'i gymharu â 3% ledled Cymru ar gyfartaledd), roedd 12% wedi gwneud chwaraeon antur (o'i gymharu â 2% ledled Cymru gyfan), roedd 10% wedi bod yn nofio (o'i gymharu â 3% ledled Cymru gyfan) ac roedd 9% wedi bod yn beicio (o'i gymharu â 3% ledled Cymru gyfan).

Bodlonrwydd ar y profiad ar y cyfan, ailymweld ac argymell:

Yn gyffredinol, roedd ymwelwyr â Gwynedd yn fodlon tu hwnt ar eu hymweliad: ar raddfa o 1 i 10, lle'r oedd 1 yn golygu 'anfodlon iawn' a 10 yn golygu 'bodlon iawn', rhoddodd wyth ym mhob deg ymwelydd â Gwynedd (80%) sgôr o naill ai 9 neu 10 allan o 10 i Gymru ar y cyfan fel lle i ymweld ag ef gyda sgôr cyfartalog o 9.3 allan o 10 (sydd union yr un fath â'r sgôr cymedrig ar gyfer Cymru gyfan).

Roedd eu taith i Gymru neu yng Nghymru wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau ar gyfer dros hanner yr ymwelwyr â Gwynedd (51%) gan gynnwys 28% a ddywedodd ei bod yn "llawer gwell" na'r disgwyl. Roedd ychydig o dan hanner yn teimlo bod y daith "cystal" â'r disgwyl (49%) a dim ond un ymwelydd â'r rhanbarth a ddywedodd bod eu taith "ddim cystal yn hollol" â'r disgwyl (llai nag 1%). Ni ddywedodd unrhyw un fod y daith "ddim yn agos at fod cystal" â'r disgwyl. Ar y cyfan, canfu mwy o ymwelwyr â Gwynedd na'r cyfartaledd ledled Cymru fod eu taith wedi bod yn well na'r disgwyl: 51% o'i gymharu â 41%.

Dywedodd fwy neu lai pob ymwelydd â Gwynedd eu bod yn debygol o ddychwelyd yn y dyfodol (97%); dywedodd 88% y byddent *yn bendant* yn ymweld eto tra byddai 8% *mwy na thebyg* yn ymweld eto (sy'n debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, sef 90% yn bendant, 7% mwy na thebyg).

Gan adlewyrchu'r lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith ymwelwyr a thebygolrwydd cryf o ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol, dywedodd bron pob ymwelydd â Gwynedd y byddent yn ei argymell fel lle i ymweld ag ef (98%); byddai 97% yn bendant yn ei argymell, a byddai 1% mwy na thebyg yn argymell Cymru wrth ffrindiau a theulu.

Nodau ac amcanion

Cafodd Beaufort Research gomisiwn gan Croeso Cymru i gynnal Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019, i ddiweddarau canfyddiadau'r don o ymchwil yn 2016 ac olrhain unrhyw newidiadau ym mhroffil, agweddau a bodlonrwydd ymwelwyr â Chymru. Rhoddwyd sylw i dri chategori o ymwelwyr: ymwelwyr undydd o'r DU, ymwelwyr o'r DU a arhosodd dros nos ac ymwelwyr tramor.

Amcanion allweddol yr arolwg, ar draws ei ddau gyfnod, oedd:

- a. Proffilio ymwelwyr â Chymru (demograffeg, oedran, cylch oes, maint grwpiau a rhyw pobl a'u profiad blaenorol o ymweld â Chymru)
- b. Dadansoddi'r cymhellion dros ddewis Cymru, megis canfyddiadau, profiadau yn y gorffennol, agosrwydd a.y.b.
- c. Canfod manylion am y daith gyfredol – e.e. lleoliad, gweithgareddau a gyflawnwyd, cludiant a ddefnyddiwyd i ac yng Nghymru, llety yr arhoswyd ynddo (os yn berthnasol)
- d. Ymchwilio i agweddau a chael sgorau mewn perthynas â phrofiad ymwelwyr â Chymru, gan gynnwys yn systematig ar gyfer ystod o gyfleusterau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a hefyd 'ymdeimlad o le' a materion cysylltiedig
- e. Cymharu disgwyliau ac agweddau cyn ymweliadau â'r profiad ei hun
- f. Ymchwilio i ffactorau megis bwriadau i ymweld yn y dyfodol a thebygolrwydd o argymhell
- g. Proffilio'r defnydd o wybodaeth wrth gynllunio ymweliadau.

Cynigiwyd y cyfle i awdurdodau lleol, partneriaethau twristiaeth a sefydliadau twristiaeth ledled Cymru gefnogi Arolwg Ymwelwyr 2019 trwy hybu nifer y cyfweliadau mewn lleoliadau penodol, ychwanegu lleoliadau cyfweld newydd neu ychwanegu cwestiynau ardal-benodol i fesur elfennau lleol penodol o brofiad ymwelwyr.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn canolbwyntio ar gyfweliadau a gynhaliwyd yn ardal sir Gwynedd.

Mae manylion holl leoliadau cyfweld Croeso Cymru a lleoliadau cyfweld a ychwanegwyd trwy gefnogaeth partneriaid i'w cael yn Atodiad I.

2. Methodoleg

3.1 Trosolwg o'r dull

Digwyddodd y cyfweiliadau ar gyfer Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 mewn dau gam:

1. Cam 1: Arolwg wyneb-yn-wyneb:

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda oedolion 16+ oed a oedd ar daith nad oedd yn un reolaidd i'r ardal (ymwelydd undydd neu ymwelydd a arhosodd dros nos). Casglwyd gwybodaeth ddemograffig gyffredinol megis oedran, rhyw, gradd gymdeithasol, ethnigrwydd, anabledd, man preswyllo a chyfansoddiad y grŵp o ymwelwyr mewn arolwg wyneb-yn-wyneb byr, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer Cymru (cyn ymweld). Cynhaliwyd **667** o gyfweiliadau yng Ngham 1 ar draws pum safle yn ardal awdurdod unedol Gwynedd.

2. Cam 2: Arolwg dilynol dros y ffôn:

Cynhaliwyd cyfweiliad manylach, hwy dros y ffôn gyda sampl o ymwelwyr y cyfweiliad â hwy yng Ngham 1, ar ôl i'w hymweliad ddod i ben. Fe wnaeth hwn gasglu adborth, ar ôl yr ymweliad, ar eu profiad ar y cyfan, gan gynnwys canfyddiadau am Gymru fel cyrchfan twristiaeth, y tebygolrwydd o ailymweld a pha un a fyddent yn argymhell Cymru wrth ffrindiau a pherthnasau. Cynhaliwyd cyfanswm o **345** o gyfweiliadau dros y ffôn gydag ymwelwyr â Gwynedd yng Ngham 2 yr arolwg.

Cafodd y data ei bwysoli ar adeg ei ddadansoddi i adlewyrchu'r gyfran o ymwelwyr undydd o'r DU, ymwelwyr o'r DU a arhosodd dros nos ac ymwelwyr tramor yn y rhanbarth.

Fe wnaed y gwaith maes rhwng 4 Mai a 22 Tachwedd 2019.

3.2 Samplau a gyflawnwyd yng Nghamau 1 a 2 yng Ngwynedd

Tabl 1: Lleoliadau	Cyfweiliadau Cam 1	Cyfweiliadau Cam 2
Canol tref Caernarfon	142	78
Coed y Brenin	173	107
Llanberis	123	49
Canol tref Porthmadog	84	45
Zip World / Llechwedd	145	66
CYFANSWM yng Ngwynedd	667	345

3. Canfyddiadau'r ymchwil

4.1 Proffil ymwelwyr

Mae ychydig yn llai na hanner yr ymwelwyr â Gwynedd o Gymru (46%) gydag union hanner yn ymweld o ran arall o'r DU (50%) a 4% arall yn dod o dramor. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r darlun ledled Cymru ar gyfartaledd, lle mae'r mwyafrif, 69%, yn ymweld o Gymru tra bo 31% yn unig yn ymweld o'r tu allan i Gymru (27% o'r DU, 4% o dramor).

Mae'r rhaniad rhwng y rhywiau ymhlith ymwelwyr â Gwynedd yn gogwyddo tuag at fenywod ar 58% gyda 42% o ymwelwyr felly'n ddyinion. Mae hyn yn debyg iawn i ymwelwyr ledled Cymru gyfan, gan bod 61% o'r rhain yn fenywod a 39% yn ddyinion.

Ar y cyfan, mae proffil oedran ymwelwyr â Gwynedd yn cyfateb yn fras i broffil oedran ymwelwyr â Chymru gyda 21% o dan 35 (o'i gymharu â 24% ledled Cymru ar gyfartaledd), 46% yn 35-54 (o'i gymharu â 39% ledled Cymru gyfan) a'r traean sy'n weddill (33%) dros 55 oed (o'i gymharu â 37% ledled Cymru gyfan) – gweler Tabl 2 am y manylion llawn.

Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1¹ (75%) tra bo chwarter yn unig (25%) yng ngrŵp C2DE² sy'n debyg i gyfartaledd ymwelwyr Cymru gyfan, sef 70% ABC1, 30% C2DE, er bo'r ymwelwyr â Gwynedd ychydig yn nes at ben uchaf y farchnad na'r cyfartaledd, gyda 43% yn perthyn i gategori AB o'i gymharu â 35% ledled Cymru ar gyfartaledd – gweler y dadansoddiad yn Nhabl 2.

Mae proffil tarddiad ethnig ymwelwyr â Gwynedd yn debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer ymwelwyr â Chymru gyfan gyda'r mwyafrif llethol o ymwelwyr yn dweud eu bod yn wyn Prydeinig/Cymreig (89% Gwynedd, 90% Cymru gyfan). Dim ond 6% o ymwelwyr â Gwynedd oedd yn "wyn – arall" (o'i gymharu â 7% o'r ymwelwyr ledled Cymru gyfan) ac roedd 5% yn dweud eu bod "heb fod yn wyn" (o'i gymharu â 3% o'r ymwelwyr ledled Cymru gyfan)

Yn gyson ag ymwelwyr ledled gweddill y wlad, ychydig iawn o ymwelwyr â Gwynedd oedd yn gallu siarad Cymraeg (12% yn rhugl, 10% ddim yn rhugl) a chyda mwy o ymwelwyr o rannau eraill o'r DU nag o Gymru, mae'n ddealladwy bod hyn hyd yn oed yn is na ledled Cymru ar gyfartaledd: nid yw 78% o'r ymwelwyr â Gwynedd yn medru unrhyw Gymraeg o'i gymharu ag 81% o'r ymwelwyr ledled Cymru gyfan.

¹ ABC1: galwedigaethau proffesiynol a galwedigaethau eraill nad ydynt yn rhai â llaw

² C2DE: galwedigaethau â llaw, gweithwyr lled grefftus a di-grefft, pobl nad ydynt yn gweithio a phobl wedi ymddeol sy'n cael pensiwn y wladwriaeth yn unig

Tabl 2: Proffil demograffig ymwelwyr	Ymwelwyr â Gwynedd %	% CYMRU GYFAN
Ardal breswyllo		
Cymru	46	69
Gweddill y DU	50	27
Dramor	4	4
Rhyw		
Dynion	42	39
Menywod	58	61
Oedran		
16 - 24 oed	3	7
25 – 34 oed	18	17
35 – 44 oed	22	20
45 – 54 oed	24	19
55 - 64 oed	18	16
65+ oed	15	21
Gradd gymdeithasol		
AB	43	35
C1	32	35
C2	16	18
DE	10	11
Siarad Cymraeg		
Rhugl	12	9
Ddim yn rhugl	10	10
Di-Gymraeg	78	81
Ethnigrwydd		
Gwyn Cymreig / Prydeinig	89	90
Gwyn arall	6	7
Heb fod yn wyn / arall	5	3

Seiliau = Cam 1 2019: Cyfanswm Gwynedd (667), Cymru gyfan (7,683).

DS efallai na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

O ran cyfansoddiad grwpiau, fel cyfartaledd ymwelwyr Cymru gyfan, mae'r rhan fwyaf o grwpiau o ymwelwyr â Gwynedd naill ai'n gyplau (29%) neu'n grwpiau teuluol â phlant bach (24%). Roedd cyfran ychydig yn uwch o grwpiau teuluol â phlant hŷn yn ymweld â Gwynedd na'r cyfartaledd ledled Cymru (roedd gan 19% o'r ymwelwyr â Gwynedd blant hŷn neu gyfuniad o blant hŷn ac iau, o'i gymharu â 12% ledled Cymru gyfan). Roedd llai o ymwelwyr â Gwynedd yn ymweld ar eu pennau eu hunain na'r cyfartaledd (6% yn ymweld â Gwynedd o'i gymharu ag 11% ledled Cymru gyfan) – gweler Tabl 3 dros y dudalen am y manylion llawn.

4.3 yw nifer cyfartalog y bobl ym mhob grŵp o ymwelwyr (3.4 o oedolion a 0.9 o blant), sydd, o ystyried y gyfran uwch o ymwelwyr teuluol ac ymwelwyr nad ydynt yn unigolion, wrth reswm yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o 3.7 (2.8 o oedolion a 0.9 o blant).

Mae Gwynedd yn denu cyfran uchel o ymwelwyr dros nos dychwel gyda bron i ddwy ran o dair wedi ymweld â'r ardal fwy nag unwaith yn y tair blynedd diwethaf (63%); roedd dros un ymhob deg (13%) wedi ymweld dros ddeg gwaith yn y cyfnod hwn. Ledled Cymru ar gyfartaledd, roedd 70% o'r ymwelwyr a arhosodd dros nos yn ymwelwyr dychwel ac roedd 16% wedi ymweld dros 10 gwaith yn y tair blynedd ddiwethaf.

Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf o ymwelwyr dydd â Gwynedd wedi bod fwy nag unwaith yn y flwyddyn ddiwethaf (86%) gan gynnwys dros bedwar ym mhob deg (41%) a oedd wedi bod fwy nag 20 gwaith yn y ffrâm amser hon. Mae hyn yn debyg iawn i'r ymwelwyr ledled Cymru ar gyfartaledd: roedd 91% o ymwelwyr dydd wedi bod o'r blaen gan gynnwys 42% a oedd wedi ymweld ag ardal fwy nag 20 gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf – gweler Tabl 3:

Tabl 3: Math o grŵp ac amlder ymweliadau	% Gwynedd	% CYMRU GYFAN
Math o grŵp o ymwelwyr		
Unigolyn	6	11
Cwpl	29	27
Teulu – plant bach	24	28
Teulu – plant hŷn	12	8
Teulu – plant bach a hŷn	7	4
Teulu – dim plant	5	8
Ffrindiau	14	11
Grŵp wedi'i drefnu	3	2
Arall	-	<1
Wedi gwrthod	-	1
Maint cyfartalog y grŵp		
Nifer cyfartalog yr oedolion	3.4	2.8
Nifer cyfartalog y plant	0.9	0.9
Cyfanswm cyfartalog y bobl	4.3	3.7
Amllder ymweliadau dros y tair blynedd ddiwethaf (ymwelwyr dros nos)		
	(Sail =301)	(Sail = 1,880)
Unwaith	37	30
2 – 3 o weithiau	29	28
4 – 6 o weithiau	18	20
7 – 10 o weithiau	4	6
Mwy na 10 o weithiau	13	16
Ddim yn gwybod	-	<1
Amllder ymweliadau yn y flwyddyn ddiwethaf (ymwelwyr dros nos)		
	(Sail =44)	(Sail = 2,029)
Unwaith	14	9
2 – 3 gwaith	16	11
4 – 6 gwaith	9	13
7 – 10 gwaith	7	10
11 – 20 gwaith	14	14
Mwy nag 20 gwaith	41	42
Ddim yn gwybod	-	1


Seiliau = Cam 1 2019: Gwynedd (667), Cymru gyfan (7,683). DS efallai na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu. *Meintiau seiliau bach mewn coch*

4.2 Proffil teithiau

Er bod y mwyafrif o'r ymwelwyr â Gwynedd ar daith undydd (72%) mae hon yn gyfran is o lawer na ledled Cymru ar gyfartaledd, lle'r oedd 89% ar deithiau dydd. Felly mae ymwelwyr dros nos yn rhoi cyfrif am gyfran uwch o lawer o ymwelwyr â Gwynedd na'r cyfartaledd: 27% o'i gymharu ag 11%.

O'r ymwelwyr â Gwynedd a oedd yn aros dros nos (27% o gyfanswm y sampl), roedd y rhan fwyaf ar egwyl fer (13%), gydag 8% ar eu prif wyliau blynyddol a 6% ar ail wyliau/gwyliau ychwanegol.

Er bod y gyfran o'r ymwelwyr dros nos a gyfwelwyd yng Ngwynedd yn uwch o lawer nag ymhlith ymwelwyr â Chymru ar y cyfan, roedd nifer y nosweithiau a arhoswyd yn debyg iawn, 5.9 noson yng Ngwynedd o'i gymharu â 6.1 noson ar gyfartaledd ledled Cymru gyfan. Gweler Ffigur 1 isod:




4.3 Cymhellion i ymweld a'r gweithgareddau a gyflawnwyd

4.3.1 Rhesymau dros ymweld

Roedd ymwelwyr â Gwynedd yn fwyaf tebygol o fod wedi dod i'r ardal i fwynhau'r dirwedd, cefn gwlad a thraethau (63%), ychydig yn fwy felly nag ymwelwyr â Chymru ar y cyfan (55%). Yr ail brif reswm dros ymweld â Gwynedd oedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon, a chafodd hyn ei grybwyll gan bron i ddwywaith nifer yr ymwelwyr â Gwynedd na'r cyfartaledd ledled Cymru (58% o'i gymharu â 31%). Y trydydd rheswm a grybwyllwyd fynychaf dros ymweld â Gwynedd oedd i ymweld â lleoedd hanesyddol/crefyddol ac atyniadau, ac roedd y ganran ar gyfer hyn, sef 39%, yn debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan (36%).

Gweler Ffigur 2 isod ar gyfer y rhesymau dros ymweld a grybwyllwyd fynychaf, yn nhrefn poblogrwydd ymhlith ymwelwyr â Gwynedd:



4.3.2 Prif weithgareddau a gyflawnwyd tra'r oedd pobl yng Ngwynedd

Wrth fwrw golwg fanylach ar y gweithgareddau penodol a gyflawnwyd gan ymwelwyr y cyfwelwyd â hwy yng Ngwynedd, cerdded mwy na dwy filltir oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd, yr oedd 37% o ymwelwyr â Gwynedd wedi cymryd rhan ynddo, sydd bron ddwywaith yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, sef 19%. Yn ail, trydydd a phedwerydd agos wedyn roedd ymweld â pharciau gwledig/coedwig (33%), mynd i weld golygfeydd yn gyffredinol (29%) ac ymweld â'r traeth (28%), yr oeddent i gyd yn weddol debyg/ychydig bach yn fwy poblogaidd yng Ngwynedd na ledled Cymru ar gyfartaledd. Roedd ymweld â rheilffordd stêm/olygfaol yn llawer mwy tebygol o fod wedi cael ei wneud yng Ngwynedd (15%) na ledled Cymru ar gyfartaledd (4%).

Roedd gwahaniaethau nodedig eraill yng Ngwynedd o'i gymharu â Chymru yn tueddu i fod yn gysylltiedig â chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon egnïol neu anturus: roedd 16% wedi cymryd rhan mewn beicio mynydd (o'i gymharu â 3% ledled Cymru ar gyfartaledd), roedd 12% wedi gwneud chwaraeon antur (o'i gymharu â 2% ledled Cymru gyfan), roedd 10% wedi bod yn nofio (o'i gymharu â 3% ledled Cymru gyfan) ac roedd 9% wedi bod yn beicio (o'i gymharu â 3% ledled Cymru gyfan).

Gweler Tabl 4 (dros y dudalen) am fanylion pellach ar gyfer y prif weithgareddau a gyflawnwyd, yn nhrefn poblogrwydd yng Ngwynedd:

Tabl 4: Gweithgareddau unigol mwyaf poblogaidd a gyflawnwyd	% Gwynedd	% CYMRU GYFAN
Cerdded (mwy na 2 filltir)	37	19
Ymweld â pharciau gwledig / parciau coedwig	33	23
Mynd i weld golygfeydd yn gyffredinol	29	23
Ymweld â'r traeth	28	22
Gwyllo bywyd gwyllt	18	13
Ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol arall	17	16
Beicio mynydd	16	3
Rheilffordd olygfaol/stêm/ hanesyddol	15	4
Atyniad sy'n seiliedig ar natur	13	11
Amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth	13	11
Chwaraeon antur	12	2
Ymweld ag atyniad bywyd gwyllt / gwarchodfa natur	10	11
Cerdded (llai na 2 filltir)	10	8
Nofio	10	3
Beicio	9	3
Ymweld â gerddi	8	13
Atyniad treftadaeth ddiwylliannol	8	5
Atyniad penodol (castell, amgueddfa, sŵ)	7	1

Seiliau = Cam 2 2019: Gwynedd (345), Cymru gyfan (3,909).


DS nid yw'r canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% gan bod mwy nag un ymateb yn bosibl.

4.4 Bodlonrwydd ar y profiad ar y cyfan, ailymweld ac argymell

4.4.1 Bodlonrwydd ar Gymru fel lle i ymweld ag ef

Yn gyffredinol, roedd ymwelwyr â Gwynedd yn fodlon tu hwnt ar eu hymweliad: ar raddfa o 1 i 10, lle'r oedd 1 yn golygu 'anfodlon iawn' a 10 yn golygu 'bodlon iawn', rhoddodd wyth ym mhob deg ymwelydd â Gwynedd (80%) sgôr o naill ai 9 neu 10 allan o 10 i *Gymru ar y cyfan fel lle i ymweld ag ef* gyda sgôr cyfartalog o 9.3 allan o 10 (sydd union yr un fath â'r sgôr cymedrig ar gyfer Cymru gyfan).

Rhoddodd un ym mhob pump arall (20%) sgorau mwy cymedrol a oedd rhwng 5 ac 8 allan o 10, ond ni ddywedodd unrhyw ymwelwyr â Gwynedd eu bod yn anfodlon ar eu hymweliad – gweler Ffigur 3 isod:




Roedd yr holl is-grwpiau demograffig a oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg yn fodlon ar Gymru ar y cyfan, gyda dim un yn rhoi sgôr cyfartalog is na 9 allan o 10.

4.4.2 Disgwyliadau

Roedd eu taith i Gymru neu yng Nghymru wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau ar gyfer dros hanner yr ymwelwyr â Gwynedd (51%) gan gynnwys 28% a ddywedodd ei bod yn "llawer gwell" na'r disgwyl. Roedd ychydig o dan hanner yn teimlo bod y daith "cystal" â'r disgwyl (49%) a dim ond un ymwelydd â'r rhanbarth a ddywedodd bod eu taith "ddim cystal yn hollol" â'r disgwyl (llai nag 1%). Ni ddywedodd unrhyw un fod y daith "ddim yn agos at fod cystal" â'r disgwyl.


Wrth gymharu'r canlyniadau ar gyfer Gwynedd â'r rhai ar gyfer Cymru ar y cyfan, canfu mwy o ymwelwyr â Gwynedd fod eu taith wedi bod yn well na'r disgwyl, 51% o'i gymharu â 41%. Roedd ymwelwyr â Gwynedd yn fwy tebygol o ddweud ei fod yn "llawer gwell" na'r disgwyl (28% o'i gymharu â 22%) ac "ychydig yn well" (23% o'i gymharu â 19%). Ar gyfartaledd, roedd ymwelwyr â Chymru'n fwy tebygol o ganfod bod y daith "cystal â'r disgwyl" (57%), o'i gymharu ag ymwelwyr â Gwynedd (49%) – gweler Ffigur 4 isod:



4.4.3 Dychwelyd i Gymru yn y dyfodol

Dywedodd fwy neu lai pob ymwelydd â Gwynedd eu bod yn debygol o ddychwelyd yn y dyfodol (97%); dywedodd 88% y byddent *yn bendant* yn ymweld eto (sy'n debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, sef 90%) tra byddai 8% *mwy na thebyg* yn ymweld eto (o'i gymharu â 7% ar gyfer Cymru gyfan).

Dim ond cyfran fach iawn o ymwelwyr (1%) ddywedodd nad oeddent yn debygol o ymweld â'r rhanbarth eto, gyda'r ychydig o ymwelwyr sy'n weddill yn dweud "ddim yn gwybod" – gweler Ffigur 5 isod:




Roedd ymwelwyr a oedd yn byw yng Nghymru'n debygol iawn o ddweud y byddent *yn bendant* yn ymweld eto (97%), tra bo 84% o'r ymwelwyr o'r DU a dim ond traean o'r ymwelwyr tramor (33%) wedi dweud hyn. DS roedd maint y sampl o ymwelwyr tramor yn fach iawn.

Yn yr un modd, dywedodd 94% o'r ymwelwyr dychwel y byddent *yn bendant* yn ymweld eto. Dim ond 70% o'r ymwelwyr newydd/ymwelwyr sydd heb ddychwelyd ers peth amser a ddywedodd y byddent yn bendant yn dychwelyd i'r ardal ar gyfer ymweliad arall er bod y tebygolrwydd cyffredinol o ailymweld yn uchel ymhlith yr holl grwpiau amlder ymweld – roedd gan 94% o ymwelwyr newydd/ymwelwyr sydd heb ddychwelyd ers peth amser rywfaint o debygolrwydd o ailymweld, a hwnnw'n codi i 97% o ymwelwyr dychwel.

4.4.4 Argymhelliad

Gan adlewyrchu'r lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith ymwelwyr a thebygolrwydd cryf o ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol, dywedodd bron pob ymwelydd â Gwynedd y byddent yn ei argymell fel lle i ymweld ag ef (98%); byddai 97% yn bendant yn ei argymell, a byddai 1% mwy na thebyg yn argymell Cymru wrth ffrindiau a theulu. Dywedodd 2% o'r ymwelwyr â Gwynedd na fyddent yn argymell Cymru, ac yn ddi-ddorol roedd bron pob un o'r bobl hyn yn byw yng Nghymru eu hunain.

Mae'r canfyddiadau cadarnhaol ar y cyfan ar gyfer Gwynedd yn gyson â'r canfyddiadau ledled Cymru ar gyfartaledd, lle byddai 99% yn argymell Cymru a dim ond 1% yn peidio â gwneud – gweler Ffigur 6 isod.



Atodiad I: Rhestr fanwl o leoliadau'r arolwg

Tabl 6: Lleoliadau unigol yr arolwg yn ôl rhanbarth yng Nghymru		
Rhanbarth	Atyniad	Sefydliad cefnogaeth partner (os yn berthnasol)
Gogledd Cymru	Sŵ Môr Môn	
	Canol Tref Biwmares	
	Betws-y-Coed	
	Canol Tref Caernarfon	
	Coed y Brenin	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Glannau Bae Colwyn	
	Erddig	
	Terfynfa Llongau Fferi / Gorsaf Caergybi	Cyngor Sir Ynys Môn
	Llanberis	
	Promenâd Llandudno	
	Canol Tref Llangollen	
	Parc Gwledig Loggerheads	
	Niwbwrch	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Traphont Pontcysyllte	
Canol Tref Porthmadog		
Promenâd y Rhyl		
Surf Snowdonia		
Parc Gwledig Gwepra		
Canolbarth Cymru	Zip World (Blaenau Ffestiniog)	
	Promenâd Aberystwyth	
	Canol Tref Aberhonddu	
	Bwlch Nant Yr Arian	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Canol Tref Aberteifi	
	Pontarfynach	
	Canolfan Ymwelwyr Cwm Elan	
	Machynlleth	Cyngor Sir Powys
	Y Cei Newydd	
	Y Drenewydd	Cyngor Sir Powys
	Castell Powys	
	Storey Arms	
	Canol Tref y Trallwng	
Ynyslas	Cyfoeth Naturiol Cymru	

Rhanbarth	Atyniad	Sefydliad cefnogaeth partner (os yn berthnasol)
Gorllewin Cymru	Rhaeadr Aberdulais Parc Coedwig Afan Canol Tref Abergwaun Parc Margam Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Tŷ Dinefwr Parc Gwledig Pembre Rhosili, Penrhyn Gŵyr Canol Tref Tyddewi Canol Tref Dinbych-y-pysgod	
De Cymru	Canol Tref y Fenni Glan Môr Ynys y Barri Amgueddfa Lofaol Genedlaethol y Pwll Mawr Rheilffordd Fynydd Aberhonddu Parc Bryn Bach Baddonau Rhufeinig Caerllion Castell Caerffili Castell Caerdydd Castell Coch Canol Tref Caerffili Canol Tref Cas-gwent Parc Gwledig Cosmeston Fforest Cwmcarn	Cyngor Sir Fynwy
	Parc Gwledig Cwm Dâr Garwnant McArthurGlen Canol Tref Trefynwy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Cyfoeth Naturiol Cymru Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cyngor Sir Fynwy
	Amgueddfa Cymru, Caerdydd	
	Pier Penarth Promenâd Porthcawl Parc Treftadaeth y Rhondda Canolfan Gopa Rock UK Profiad y Bathdy Brenhinol Amgueddfa Werin Sain Ffagan Abaty Tyndyrn Tŷ Tredegar Canolfan Mileniwm Cymru/Bae Caerdydd	Cyngor Bro Morgannwg

Atodiad II: Holiadur arolwg Cam 1 (cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb)

Atodiad III: Holiadur arolwg Cam 2 (cyfweiliadau dros y ffôn)

enquiries@beaufortresearch.co.uk
www.beaufortresearch.co.uk